Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
National Botanic Garden of Wales

# Telerau ac Amodau Aelodaeth o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

1. Dim ond aelodaeth wedi ei phrynu'n uniongyrchol drwy Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ("yr Ardd") sy'n ddilys ar gyfer mynediad i'r Ardd, ac mae'r Ardd yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais am aelodaeth.

2. Ni fydd ad-daliad am brynu aelodaeth dan unrhyw amgylchiadau.

3. Os digwydd bod rhan o'r Ardd ar gau am unrhyw reswm, ni roir ad-daliadau ac ni chaiff aelodaeth ei hestyn.

4. Mae aelodaeth o'r Ardd yn rhoi i ddeiliad/ddeiliaid cerdyn ac aelodau cysylltiedig (yn achos aelodaeth Teulu neu Blws, er enghraifft) fynediad i'r Ardd yn ystod oriau agor arferol tra bydd yr aelodaeth yn para. Mae'r Ardd yn cadw'r hawl i godi tâl ar aelodau am ddod i mewn i'r Ardd ar gyfer digwyddiadau neu weithgareddau arbennig, boed yn ystod oriau agor arferol neu ar adegau eraill.

5. Rhaid cyflwyno cardiau aelodaeth wrth y brif fynedfa i'r Ardd i gael mynd i mewn, a gellir eu defnyddio gan yr aelod sydd wedi'i enwi'n unig. Ni ellir trosglwyddo cardiau aelodaeth.

6. Gwelir isod nifer yr aelodau a'r plant a all gael mynediad ar unrhyw un adeg dan bob math o aelodaeth, ac mae nifer y cardiau a roir i oedolion i'w weld isod. Rhaid i bob ymwelydd dalu'r pris mynediad arferol.

| Math o Aelodaeth | Cardiau a Roddwyd | Nifer yr Oedolion* | Nifer y Plant |
|---|---|---|---|
| Unigol | 1 | 1 | 4 |
| Cyfunol | 2 | 2 | 4 |
| Aelodaeth Plws | 1 | 2 | 4 |
| Clwb 18-25 | 1 | 1 | 0 |

* Rhaid i bob oedolyn ddangos cerdyn aelodaeth dilys ac eithrio yn achos Aelodaeth Plws, pan gaiff aelod sydd â cherdyn dilys ddod ag un gwestai yn rhad ac am ddim.

7. Bydd aelodau sy'n methu dangos cerdyn dilys wrth ddod i mewn i'r Ardd yn cael eu gwrthod, neu gofynnir iddynt dalu'r ffi mynediad cyhoeddus, ac ni roir ad-daliad am hwnnw.

8. Mae'r aelodaeth, gan gynnwys y cerdyn aelodaeth, yn dal yn eiddo i'r Ardd. Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru'n cadw'r hawl i ddileu aelodaeth am unrhyw reswm.

9. Lle telir am aelodaeth o'r Ardd drwy Ddebyd Uniongyrchol, yr Aelod sy'n gyfrifol am ddileu'r Debyd Uniongyrchol yn bersonol gyda'i fanc, ac i roi gwybod i'r Adran Aelodaeth yn ysgrifenedig neu drwy e-bost fod hwnnw wedi ei ddileu os na fydd yr aelodaeth yn cael ei hadnewyddu.

10. Codir ffi gweinyddu o £5 am adnewyddu cardiau aelodaeth sydd wedi eu colli neu eu difrodi. Rhowch wybod i'r Porthdy neu'r Adran Aelodaeth ar unwaith os collwch eich cerdyn.

11. Mae'r Ardd yn cadw'r hawl i gau unrhyw ran o'r Ardd, neu'r safle cyfan, heb rybudd ymlaen llaw; nid yw aelodaeth yn gwarantu mynediad.

12. Ni ellir defnyddio aelodaeth mewn cysylltiad ag unrhyw fusnes neu weithgaredd masnachol heb gael caniatâd penodol gan yr Ardd.

13. Mae manylion am leoedd sy'n rhoi mynediad i aelodau o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru dan gynlluniau cyfatebol yn agored i newid, ac nid yw'r telerau'n cyfateb i aelodaeth o'r Ardd. Mae manylion am drefniadau cyfatebol i'w gweld ar wefan yr Ardd ac ar lythyron adnewyddu. Cynghorir aelodau i sicrhau cyn teithio i unrhyw leoliad cyfatebol ac i sylwi na fydd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn atebol am unrhyw hawliadau o unrhyw natur yn ymwneud ag ymweliadau â gerddi neu leoliadau cyfatebol.

14. Mae'r Ardd yn cadw'r hawl i newid neu atal cynigion, hyrwyddiadau neu ddisgownt i aelodau ar unrhyw adeg heb rybudd, ac i gynnig rhai manteision aelodaeth penodedig i rai categorïau o aelodaeth yn unig. Mae rhestr lawn o fanteision aelodaeth cyfredol i'w gweld ar wefan yr Ardd neu mae ar gael yn ysgrifenedig ac wrth adnewyddu.

15. Rhaid i aelodau roi gwybod i'r Ardd ar unwaith am unrhyw newid mewn cyfeiriad a manylion cyswllt eraill. Lle bydd yr Ardd heb gael gwybod am newid mewn cyfeiriad a manylion cyswllt eraill a chardiau aelodaeth yn cael eu hanfon allan, bydd yr Ardd yn codi tâl am gardiau yn eu lle ynghyd â ffi gweinyddu.

16. Cyfrifoldeb yr Aelod yw rhoi gwybod i'r Adran Aelodaeth am unrhyw newid mewn amgylchiadau'n ymwneud â Rhodd Cymorth, yn enwedig os yw swm y dreth bersonol a delir yn llai na swm y Rhodd Cymorth sy'n cael ei hawlio ar bob rhodd yn y flwyddyn dreth berthnasol.

17. Bydd yr Ardd yn cadw manylion aelodau'n ddiogel ac ni fydd yn eu rhannu gydag unrhyw sefydliadau trydydd parti heb ganiatâd penodol yr aelod. Mae Hysbysiad Preifatrwydd llawn yr Ardd i'w weld ar wefan yr Ardd.